# Pwyllgor Cynaliadwyedd

**SC(3)-01-08 (p.3): 17 Ionawr 2008**

## Papur cwmpasu ar gyfer is-bwnc diwydiant a chyrff cyhoeddus ymchwiliad y Pwyllgor i ostwng carbon yng Nghymru

### Diben

1. Mae'r papur hwn yn gwahodd Aelodau i ystyried y papur cwmpasu ar gyfer is-bwnc diwydiant a chyrff cyhoeddus ymchwiliad craffu'r Pwyllgor i ostwng carbon yng Nghymru.

### Cefndir

2. Yn ei gyfarfod ar 12 Gorffennaf 2007, cytunodd y Pwyllgor i gynnal ei ymchwiliad craffu cyntaf i ostwng carbon yng Nghymru a chytuno ymhellach i rannu'r ymchwiliad yn gyfres o is-bynciau er mwyn sicrhau proses gasglu tystiolaeth sy'n canolbwyntio'n deg ar bob pwnc. Yn fuan bydd y Pwyllgor yn cwblhau ei ail is-bwnc ar ostwng carbon gan drafnidiaeth a bydd wedyn yn dechrau ar ei drydydd is-bwnc ar ostwng carbon gan ddiwydiant a chyrff cyhoeddus.

3. Mae'r papur cwmpasu yn Atodiad A yn nodi cwmpas arfaethedig is-bwnc diwydiant a chyrff cyhoeddus yr ymchwiliad, gan ganolbwyntio ar faterion allweddol a chyfrifoldebau datganoledig, y sefyllfa yng Nghymru a gwella effeithiolrwydd o ran carbon.

### Argymhelliad

4. Mae Aelodau'n cael eu gwahodd i gytuno ar gwmpas yr is-bwnc diwydiant a chyrff cyhoeddus yr ymchwiliad i ostwng carbon.

Y Gwasanaeth Pwyllgorau
Ionawr 2008